

Frequently asked Questions – Trallwn Road Safety Scheme

Q. Why not use one cushion instead of three

A. Experience has shown that drivers will choose to avoid driving over cushions by using parking bays when possible.

Q. Why not use humps instead of cushions

A. Different types of measures are used on different routes depending on the nature of the site and type of traffic using the road. For example Cushions are proposed along the route of the service bus as they find it easier to negotiate cushions as opposed to full width humps.

Q. Concerned about increased noise

A. Studies have shown that noise levels can actually reduce following the introduction of traffic calming measures, where vehicle flows consists of predominantly light vehicles such as in Trallwn. However, changes in noise levels can vary depending on the type of features installed, type of vehicles using the roads and driver behaviour. Nevertheless, the same measures have been used extensively throughout RCT, in areas similar to Trallwn with the Council receiving very few complaints following their implementation in respect to excessive noise.

Q. Concerned about air pollution

A. It is recognised that road traffic can have an impact upon local air quality with vehicle speed being an important factor (among others) in the degree of pollution emitted from road vehicles. Recent research has demonstrated that the design of traffic calming measures and other traffic safety and management actions can have a significant impact, both positive and negative, on local air quality. As such it is recommended that where possible and given the aims of the particular scheme, consideration should be given to measures which, although reduce traffic speed, do not significantly increase the degree of sudden braking and/or aggressive acceleration. Such factors were noted and given due consideration where practical to do so during the design of this scheme. It is advised that specific attention should be given to streets/roads with an average daily traffic flow of >5,000 or roads within or associated with existing Air Quality Management Areas which it should be noted excludes the streets of Trallwn.

Rhondda Cynon Taf CBC regularly reviews air quality across the Borough against Air Quality Objectives set in UK Regulations. As a result there are currently fifteen Air Quality Management Areas within Rhondda Cynon Taf where it has been shown that, at least within part of these areas, an air quality objective for Nitrogen dioxide has been breached. Outside of these Air Quality Management Areas, current evidence suggests that it is likely that the local air quality would be compliant to the Air Quality Objectives regardless of the introduction of traffic calming. Nevertheless the Councils Public Health Team continually monitor air quality across the Borough and would closely monitor areas where there may be a change in air quality standards over time. At present there are no Air Quality Management Areas declared within Trallwn. The Air Quality Management Areas within Rhondda Cynon Taf, as well as general local air quality, is detailed within the latest local air quality report produced by Rhondda Cynon Taf CBC and published on the Local Authorities web site: -

*<http://www.rctcbc.gov.uk/EN/Business/LicencesandPermits/Pollutionrelatedlicences/Airquality.aspx>
with additional information, including real-time monitoring of local air quality, published on the WAQF site;
<http://www.welshairquality.co.uk/index.php>*

Q. Restrict traffic movements on the White Bridge

A. This would have wider implications on traffic patterns in the area and would need significant investigation and consideration prior to implementation. This is something that cannot be included within this scheme however it is something that may be considered at a later date.

Q. Why not introduce a 20mph Speed Limit only

A. *The traffic calming features are required to ensure the 20mph limit is self enforcing. A 20mph speed limit without physical traffic calming achieves on average only a 1mph reduction in traffic speed.*

Q. **The traffic calming measures will result in a loss of parking opportunity. Can we have residents parking?**

A. *The traffic calming measures can be parked on and will not remove any parking. The Council has committed to reviewing residents parking throughout Trallwn. The review is programmed to start in late February and will take account of all concerns relating to parking in the Trallwn area.*

Q. **Why not introduce speed cameras**

A. *No streets within Trallwn meet the criteria set by the Welsh Government for the provision of a speed camera.*

Q. **I don't want a hump outside my house**

A. *The traffic calming features need to be consistently spaced to ensure vehicle speeds are kept at or around the 20mph limit. Therefore there is limited scope to adjust the positioning of the features without affecting the overall design. Every attempt is made when designing a scheme to position features away from locations that may disrupt residents, however it is inevitable that some features will be located in the vicinity of residential properties. The cushions and humps being proposed should not pose any problems to residents and have been used consistently throughout Rhondda Cynon Taf over many years with very few problems.*

Q. **Traffic calming is not effective at reducing traffic speeds**

A. *The Department for Transport supports the use of the measures proposed in this scheme to reduce vehicular speed and help create a safer environment for all highway users. It has been demonstrated through research that traffic calming is effective at reducing vehicular speeds.*

Q. **Driving over speed humps damages cars**

A. *The Department for Transport clearly advises that traffic calming if constructed within the tolerances of approved design standards should not cause undue wear and tear to vehicles providing vehicles negotiate the features at an appropriate speed.*

Q. **Why isn't my street 20mph**

A. *All streets within Trallwn will become 20mph however, in streets where there are no physical measures, signing is used to remind drivers they are within a 20mph zone.*

Q. **Drivers ignore the One Way systems**

A. *The council has no powers to enforce moving traffic offences such as drivers choosing to ignore a One Way system. The council will raise the concerns with the police in order that they may consider taking appropriate action. As part of the scheme, the existing signing will be checked and replaced where required.*

Q. **The existing junction markings are in poor condition**

A. *These will be assessed and refreshed where required.*

Q. **Something needs to be done about traffic using Fish Lane**

A. *Following the consultation, proposals have been developed to introduce a One Way system in Fish Lane running south to north.*

Q. **Central Square**

A. *The proposed changes are considered necessary to improve safety at Central Square. The current adhoc parking arrangement does not provide a safe environment for pedestrians and the haphazard nature with which cars park can create an unsafe environment for those using Ralph Street and Bonvilston Road. Parking capacity will remain unchanged, with residents experiencing no loss of parking (counting only those cars considered to be parking in a safe and legal manner).*

Cwestiynau Cyffredin - Cynllun Diogelwch ar y Ffyrdd Trallwn

C. Pam ydych chi'n defnyddio tair clustog yn hytrach na defnyddio un?

A. Mae gyrrwyr yn dewis ceisio osgoi gyrru dros y clustogau drwy ddefnyddio manau parcio lle'n bosibl.

C. Pam ydych chi wedi defnyddio clustogau yn hytrach na thwmpathau?

A. Bydd dulliau gwahanol yn cael eu defnyddio gan ddibynnu ar natur y safle a'r math o draffig sydd yn defnyddio'r heol. Er enghraifft, rydyn ni'n argymhell defnyddio clustogau ar hyd y llwybr bysiau oherwydd mae'n haws iddyn nhw yrru dros y clustogau yn hytrach na thwmpath llawn hyd.

C. Rydw i'n pryderu y bydd lefel y sŵn yn cynyddu.

A. Mae astudiaethau wedi dangos bod lefelau sŵn yn gallu gostwng ar ôl cyflwyno mesurau arafu traffig lle mae'r mwyafrif o gerbydau yn rhai ysgafn, fel sydd yn Nhrallwn. Serch hynny, mae lefelau sŵn yn gallu amrywio gan ddibynnu ar y math o ddull arafu traffig, y math o gerbydau sy'n defnyddio'r heol ac ymddygiad y gyrrwyr. Er hyn oll, mae'r un dulliau wedi cael eu defnyddio ledled Rhondda Cynon Taf, mewn ardaloedd tebyg iawn i Drallwn. Nifer bach iawn o gwynion y mae'r Cyngor wedi'u derbyn ynghylch sŵn traffig ar ôl gosod mesurau arafu traffig o'r fath.

C. Rydw i'n pryderu am lygredd aer.

A. Rydyn ni'n cydnabod bod traffig ar y ffyrdd yn gallu effeithio ar ansawdd yr aer leol. Mae cyflymder y cerbydau yn elfen bwysig (ymhlith elfennau eraill) yn nhermau'r lefel o lygredd sy'n cael ei ollwng o gerbydau ar yr heolydd. Mae ymchwil diweddar wedi dangos gall dyluniad y mesurau arafu traffig a gweithredoedd eraill o ran diogelwch ar y ffyrdd a rheoli traffig gael effaith sylweddol ar ansawdd yr aer leol. Mae'r rhain yn cynnwys effeithiau cadarnhaol a rhai negyddol. Felly, argymhellir y dylid ystyried defnyddio mesurau sydd yn arafu'r traffig ac sy'n cyd-fynd ag amcanion y cynllun penodol, ond sydd ddim yn cynyddu'r lefel o frecio yn sydyn a/neu gyflymu ffyrnig. Cafodd ffactorau o'r fath eu nodi a'u hystyried yn ystod y cyfnod dylunio lle'r oedd yn briodol ei wneud. Cynghorir y dylid rhoi sylw penodol i strydoedd/heolydd sydd â llif traffig dyddiol sy'n is na 5,000 neu heolydd sydd o fewn, neu sy'n gysylltiedig ag Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer sydd eisoes yn bodoli. Ond, dylid nodi dydy hyn ddim yn berthnasol i strydoedd Trallwn.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn adolygu ansawdd aer ledled y Fwrdeistref yn erbyn yr Amcanion Ansawdd Aer sydd wedi nodi yn Rheoliadau'r Deyrnas Unedig. O ganlyniad i hyn, mae yna bymtheg Ardal Rheoli Ansawdd Aer yn Rhondda Cynon Taf. Maen nhw'n dangos bod amcan ansawdd aer ar gyfer nitrogen deuocsid wedi cael ei dorri yn yr ardaloedd yma neu mewn rhan ohonyn nhw. Tu allan i'r Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer hyn, mae'r dystiolaeth sydd gennym ni ar hyn o bryd yn awgrymu ei fod yn debygol bod ansawdd yr aer leol yn cydymffurfio â'r Amcanion Ansawdd Aer hyd yn oed ar ôl cyflwyno'r dulliau arafu traffig. Serch hynny, mae Carfan Iechyd y Cyhoedd yn monitro ansawdd yr aer yn gyson ledled y Fwrdeistref. Byddan nhw yn monitro ardaloedd penodol yn ofalus lle gall fod newid i safonau ansawdd yr aer dros gyfnod. Ar hyn o bryd, does dim Ardal Rheoli Ansawdd Aer wedi'i phennu yn Nhrallwn. Mae manylion yr Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer, yn ogystal â manylion ansawdd yr aer leol yn gyffredinol, ar gael yn yr adroddiad ansawdd aer leol diweddaraf. Mae'r adroddiad wedi'i gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod Lleol:-

<http://www.rctcbc.gov.uk/CY/Business/LicencesandPermits/Pollutionrelatedlicences/AirQuality.aspx>

Mae gwybodaeth ychwanegol, yn ogystal â monitro cyfredol o ansawdd yr aer leol, yn cael ei gyhoeddi ar wefan Ansawdd Aer Cymru; http://www.welshairquality.co.uk/index.php?t=&n_action=&lg=w

C. Cyfyngu traffig ar White Bridge.

A. Byddai hyn yn cael effaith ar batrymau traffig yn yr ardal, ac felly byddai'n rhaid cael archwiliad ac ystyriaeth sylweddol cyn unrhyw weithredu. Does dim modd ei gynnwys yn y cynllun yma, fodd bynnag, mae'n rhywbeth a allai gael ei ystyried yn y dyfodol.

C. Beth am gyflwyno Terfyn Cyflymder o 20mya yn unig?

A. *Mae'n rhaid cynnwys y mesurau arafu traffig er mwyn sicrhau bod gyrwyr yn parchu'r terfyn cyflymder o 20mya. Heb fesurau arafu traffig corfforol, byddai terfyn cyflymder o 20mya yn llwyddo i arafu cyflymder y traffig gan 1mya yn unig.*

C. Bydd y dulliau arafu traffig yn lleihau'r nifer o leoedd i barcio. Oes modd inni gael lleoedd parcio i drigolion?

A. *Mae modd i chi barcio dros y clustogau arafu. Fyddan nhw ddim yn effeithio ar y lleoedd parcio. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i adolygu'r sefyllfa parcio i drigolion ledled Trallwn. Y nod yw dechrau'r adolygiad tua diwedd mis Chwefror a bydd hyn yn ystyried unrhyw bryderon ynghylch parcio yn ardal Trallwn.*

C. Beth am gyflwyno camerâu cyflymder?

A. *Does dim stryd yn Nhrallwn sydd yn cwrdd â meini prawf Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu camera cyflymder.*

C. Dydw i ddim yn fodlon cael clustog arafu tu allan i'm cartref.

A. *Mae'n rhaid bod y clustogau arafu yn gyttbell o'i gilydd er mwyn sicrhau bod cerbydau yn cadw at y terfyn cyflymder o 20mya. Felly does dim llawer o le i addasu lleoliad y clustogau heb effeithio ar y dyluniad cyfan. Mae pob ymdrech yn cael ei wneud i beidio â lleoli'r arweddion mewn mannau sydd yn mynd i effeithio ar drigolion. Serch hynny, mae'n anochel y byddai rhai arweddion yn cael eu lleoli yn agos at eiddo'r trigolion. Ddylai'r clustogau a thwmpathau arfaethedig ddim achosi unrhyw broblemau i'r trigolion. Rydyn ni wedi defnyddio dulliau arafu traffig o'r fath yn rheolaidd ledled Rhondda Cynon Taf dros sawl blwyddyn heb lawer o broblemau.*

C. Dydy'r dulliau arafu traffig ddim yn effeithiol i leihau cyflymder y traffig.

A. *Mae'r Adran Gludiant yn cefnogi'r defnydd o'r mesurau sydd wedi'u cynnig yn y cynllun yma er mwyn lleihau cyflymder y cerbydau ac i helpu creu awyrgylch mwy diogel i bawb sydd yn defnyddio'r priffyrdd. Mae ymchwil wedi profi bod dulliau arafu traffig yn effeithiol o ran lleihau cyflymder y cerbydau.*

C. Mae gyrru dros dwmpathau yn gwneud dolur i'r cerbydau.

A. *Mae'r Adran Gludiant yn argymhell ddylai mesurau arafu traffig sydd wedi'u rhoi at ei gilydd yn ôlo safonau dylunio cymeradwy ddim achosi traul ormodol i gerbydau ar yr amod bod gyrwyr ddim yn gyrru'n gyflym dros y clustogau.*

C. Pam nad oes terfyn cyflymder o 20mya ar fy stryd i?

A. *Bydd pob stryd yn Nhrallwn yn newid i fod yn 20mya yn y pen draw. Serch hynny, bydd arwyddion yn cael eu gosod yn y strydoedd heb fesurau arafu traffig corfforol er mwyn atgoffa'r gyrwyr eu bod nhw o fewn parth 20mya.*

C. Mae gyrwyr yn anwybyddu'r systemau gyrru Un Ffordd.

A. *Does dim grym gan y Cyngor i orfodi troseddau traffig sydd yn symud, megis gyrwyr sydd yn dewis anwybyddu system Un Ffordd. Bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i'r heddlu am y pryderon yma er mwyn iddyn nhw allu gweithredu'n briodol ynghylch y mater. Bydd unrhyw arwyddion presennol yn cael eu gwirio a bydd rhai newydd yn cael eu gosod lle bo angen yn rhan o'r cynllun yma.*

C. Mae marciau'r gyffordd mewn cyflwr gwael.

A. *Byddan nhw'n cael eu hasesu a bydd marciau newydd yn cael eu paentio lle bo angen.*

C. Mae'n rhaid i chi wneud rhywbeth ynghylch y traffig sydd yn defnyddio Fish Lane.

A. *Yn dilyn ymgynghoriad, rydyn ni wedi datblygu cynigion sydd yn cyflwyno system Un Ffordd ar Fish Lane sydd yn rhedeg o'r De i'r Gogledd.*

C. Central Square

A. *Mae'r newidiadau arfaethedig yn hanfodol er mwyn gwella diogelwch yn Central Square. Dydy'r trefniadau parcio ad hoc presennol ddim yn amgylchedd diogel i gerddwyr. Yn ogystal â hyn, mae'r modd di-drefn y mae cerbydau yn parcio'n gallu achosi amgylchedd peryglus i'r rhai sydd yn defnyddio Ralph Street a Bonvilston Road. Fydd nifer y lleoedd parcio ddim yn newid, felly fydd trigolion ddim yn colli unrhyw gyfleoedd parcio. (Dim ond y rhai sydd yn parcio mewn lleoedd diogel a chyfreithlon sy'n cael eu hystyried yn yr ystyr hyn).*